



Annwyl riant / warcheidwad,

Braf iawn yw gallu cysylltu gyda chi ar ddiwedd tymor prysur a llwyddiannus dros ben. Unwaith eto rydym wedi sicrhau bod ein disgyblion yn derbyn pob cyfle posib i ddatblygu a ffynnu fel unigolion effeithiol a hyderus.

Ein Cynllun Gwella Ysgol

Darparwyd adroddiad llawn o'n cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau i'r corff Llywodraethol yn ein cyfarfod tymhorol. Mae copi o'r cynllun gwella ysgol llawn ar gael i chi ar ein gwefan lle gallwch weld beth yw ein ffocysau ar gyfer sicrau'r ddarpariaeth orau posib i'r holl ddysgwyr.

Y Siarter Iaith

Rydym wedi gweithio'n ddyfal eleni er mwyn ail-afael yn y Siarter Iaith a hynny er mwyn cyfoethogi profiadau'r disgyblion a chynnyddu eu hyder a'u parodrwydd i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau o ddydd i ddydd. Bydd yr achrediadau ar gyfer y wobr yn cymryd lle yn dilyn y Pasg ond mae'r adran Gynradd yn anelu am y wobr aur a'r adran uwchradd yn anelu am y wobr efydd.

Hoffwn longyfarch yr adran Gynradd ar eu prosiect Caffi Cymraeg – ar y cyd gyda Phrifysgol Abertawe. Mae disgyblion yr ysgol, dan arweiniad Miss Sali Lloyd yn rhedeg caffi ar gyfer aelodau'r gymuned ac yn cynothwyo'r cymdogion i ail-afael yn eu Cymraeg.


Presenoldeb y tymor hwn

Rydym wedi bod yn gweithio yn galed iawn er mwyn cynyddu presenoldeb disgyblion ac mae tipyn o lwyddiant i'w dathlu!

- Yr Adran Gynradd sydd wedi gweld y cynnydd gorau yn y sir
- Blwyddyn 7 Bro Dur ar gyrraedd 93.3%
- Blwyddyn 7 ystalyfera ar gyrraedd 94.3%

Cwricwlwm i Gymru

Mae ein hadroddiadau ar gyfer blwyddyn 7 ag 8 wedi cael eu haddasu i gyd-fynd gyda gweledigaeth y cwricwlwm newydd. Maent yn nodi presenoldeb, ymdrech, perfformiad presennol a tharged ar gyfer gwella. Gobeithio eich bod yn teimlo bod y wybodaeth yn ddefnyddiol er mwyn annog a chefnogi eich plentyn i gyrraedd yn uchel. Cofiwch rannu eich barn ar gynnwys yr adroddiad trwy'r linc yma <https://forms.office.com/e/E5aUHwV00X>



Cawsom gyfle gwych i groesawu arddangosfa o hanes camlas Abertawe am bythefnos ym mis Mawrth. Braff oedd gweld y disgyblion yn elwa o'r wybodaeth a chael cyfle i gyfoethogi eu gwybodaeth o hanes lleol.

Cafodd disgyblion o'r adran gynradd gyfle i chwarae telynnau celtaidd dan arweiniad Miss Katie Bayliss. Diwrnod a phrofiad arbennig iawn.



Diogelu

Fel y gwyddoch, mae ein ffocws ar sicrhau bod ein disgyblion yn datblygu fel dinasyddion egwyddorol gwybodus yn flaenoriaeth a'r tymor hwn rydym wedi cael sesiynau gyda Fearless (Crimestoppers), y frigâd dân, sesiynau ar drosedd cyllyll/countylines a diogelwch ar yr heol, perthynas Iach gan Spectrwm a chydysniad rhywiol / Diogelwch ar y we gyda P C George.

Rheolau newydd ailgylchu

Mae'r gyfraith ar ailgylchu ar gyfer busnesau yn newid. O fis Ebrill ymlaen, mae disgwyl i ysgolion fel holl fusnesau Cymru wahanu eu deunyddiau ailgylchadwy yn yr un modd y mae cartrefi yn eu wneud eisoes. Rydym wedi paratoi ar gyfer y newid hwn ac ar ôl Pasg bydd gennym canolfannau ailgylchu ar draws yr ysgol lle bydd disgwyl i bawb ddosbarthu eitemau ailgylchadwy. Mae'r rheolau newydd yn llym a rhaid sicrhau ein bod yn gwahanu gwastraff bwyd o bob llif arall. Rydym yn gofyn yn garedig i chi ein cynorthwyo gyda'r ymgyrch hwn drwy:

- Sicrhau bod pecynnau bwyd ond yn cynnwys eitemau ailgylchadwy
- Bod eich plentyn yn deall ei ran yn yr ymgyrch ac yn cefnogi'r broses
- Pwysleisio i'ch plentyn bod yn rhaid bwyta eu brechdannau yn y bwyty yn unig

Llwyddiannau ein disgyblion

Mae wedi bod yn dymor prysur iawn i ddisgyblion ar draws yr ystod oedran a hoffwn longyfarch bawb sydd wedi cynrhycholi'r ysgol mewn amrywiaeth eang iawn o weithgareddau. Rhai'n unig o'r llwyddiannau sydd isod – er mwyn eu gweld i gyd ewch i edrych ar wefannau cymdeithasol yr ysgol.

Cafwyd Eisteddfod ysgol gwych ar Fawrth 1af gyda'r bwrlwm arferol o gystadlu a hynny mewn cystadlaethau traddodiadol megis canu, actio, offerynnol ond hefyd cystadlaethau mwy arbrofol megis Hakka, sgets a band roc. Llongyfarchiadau i bawb ond yn arbennig i Lys Llywelyn a oedd y fuddugol yn yr adran Uwchradd a Gwenllian a oedd yn fuddugol yn yr adran Gynradd.



Eisteddfod yr Urdd Sir Maldwyn 2024

Yn dilyn perfformiadau cryf iawn yn yr Eisteddfod sir, bydd nifer fawr o ddisgyblion yn cynrhycholi'r Ysgol yn Eisteddfod yr Urdd Maldwyn dros y Sulgwyn ac edrychwn ymlaen at gael eu cefnogi.

Côr Cynradd: **1af**

Unawd Llinynnol BI7-9: **Mabli Lloyd 1af**

Unawd Piano BI7-9: **Gruffudd Watkins 1af**

Unawd Telyn BI7-9: **Cari Griffiths 1af**

Unawd Pres BI10 a dan 19: **Sion Lloyd 1af**

Unawd Piano BI10 a dan 19: **Sadie Brophy 1af**

Unawd Llinynnol BI10 a dan 19: **Mea Verallo 1af**

Ensemble Offerynnol BI 7-9: **Ysgol Ystalyfera 1af**

Deuawd BI7-9: **Gracie Marks ac Anest Jones 1af**

Triawd Cerdd Dant: **Mea Verallo Carla Verall a Mali**

Loader 1af

Ensemble Lleisiol Hÿn: **Mea Verallo, Rhydian Rees a Mali Loader 1af**

Côr Bechgyn Iau: **1af**

Côr SA Iau: **1af**

Côr Merched hÿn: **1af**

Côr Gwerin: **1af**

Côr SATB: **1af**

Ymgom Iau: **1af**

Parti Llefaru Iau: **1af**

Parti Llefaru Hÿn: **1af**





Cystadleuaeth Seren

Llongyfarchiadau i dîm dadlau blwyddyn 9 a fuodd lan yn Rhydychen ar gyrraedd y rown cyn-derfynnol. Canlyniad gwych a phrofiad gwych. Da iawn Llew Jones, Aled Murphy, Eluned Davies ac Evan Watts.



Yr Academi Rygbi

Mae tîm cyntaf yr ysgol wedi cael tymor arbennig o dda fel rhan o'u blwyddyn gyntaf yng ngyngair Ysgol a Cholegau Cymru. Daeth y tîm yn ail yng nghystadleuaeth y plât gan orffen y tymor ar nodyn uchel. Edrychwn ymlaen at gael groesawu'r tô newydd ym mis medi.

Llongyfarchiadau hefyd i dîm rygbi blwyddyn 5 a 6 am eu perfformiad gwych yn nhwrnamaint rygbi ym Mhontardawe – Academi y dyfodol!



Rydym yn gwneud ein gorau glas i drydaru llwyddiannau ein disgyblion unigol ar ein gwefannau cymdeithasol – Trydar, Facebook a Gwefan yr Ysgol. Plis cysylltwch os oes gennych newyddion am eich plentyn.

Hoffwn ddiolch yn ddidwyll iawn i holl staff yr ysgol am eu gwaith yn hyfforddi a pharatoi ein disgyblion at wahanol gystadlaethau ac ymweliadau. Hebbyddyn nhw ni fyddai modd i ni gynnig cymaint o arlwy addysgiadol.

Codi arian at Eisteddfod Dur a Môr Margam a'r Fro 2025



Mae'n hynod o gyffrous i feddwl mai ni fydd yn croesawi yr Eisteddfod yn ystod 2025! Bydd yr ŵyl yn cael ei chynnal yn ystod wythnos Sulgwyn ar barc Margam. Wrth gwrs y gwaith nawr yw 'codi arian'! Mae gennym ddwy gweithgaredd yn ystod y misoedd nesaf a chroeso cynnes i chi ein cefnogi.

Ar Ebrill 12fed fydd Noson Gwerin yn Theatr Chiswell a bydd corau a dawnswyr yr ysgol yn perfformio – tocynnau yn £15 yn cynnwys bwyd a bar!

Ar Fai 10fed bydd 'The Paint Along Lady' yn cynnal noson eto yn Theatr Chiswell gyda bwyd a bar a hynny am £35.



Tymor yr Haf

Wrth edrych ymlaen at y tymor olaf, hoffwn dynnu eich sylw at y materion canlynol:

Presenoldeb

Mae presenoldeb uchel yn allweddol ar gyfer llwyddiant eich plentyn. Dylai pob plentyn anelu at bresenoldeb 100% er mwyn elwa'n llawn ar bob cyfle a ddarperir o fewn yr ysgol. Hoffem hefyd ofyn am eich cefnogaeth o ran sicrhau prydlondeb i'r ysgol. Disgwilir i bob plentyn fod yn yr ysgol erbyn 8.40yb os gwelwch yn dda. Mae cyrraedd yn hwyrach na hynny yn torri ar draws gwersi ac amser ymgartrefu i'r dosbarth i bawb ar ddechrau'r diwrnod ysgol. Diolch yn fawr am eich cefnogaeth, bob amser.

Gwisg Ysgol Haf

Ar ôl gwyliau'r Pasg byddwn yn caniatáu i ddisgyblion wisgo gwisg haf. Am y tymor olaf, bydd caniatad i ddisgyblion wisgo:

- Crys polo swyddogol yr ysgol
- Byrion chwaraeon swyddogol yr ysgol
- Esgidiau / trainers du

Nid oes caniatad i wisg skort na leggings, os nad yw eich plentyn eisiau gwisgo byrion, rhaid gwisgo trowsus neu sgert arferol gyda sanau neu deits. Rydym yn diolch ymlaen llaw i chi am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad yn y mater yma.

Arholiadau allanol:

Byddwch yn derbyn amserlen terfynnol arholiadau TGAU / Iefel A / Galwedigaethol yn syth ar ôl Pasg a gofynnwn yn garedig i chi sicrhau bod y dyddiadau yn glir gennych yn eich dyddiaduron. Os fydd gennych unrhyw bryderon yn ystod y cyfnod, cofiwch gysylltu gyda'n swyddog arholiadau Mrs Cath Michael trwy'r brif dderbynfya neu ebostiwch trwy michaelc19@hwbcymru.net.

Unwaith eto, hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i chi am eich cefnogaeth barhaus ac edrychaf ymlaen gydag egni a brwfyredd at dymor arall o waith o'r safon uchaf.

Calendr Tymor yr Haf

Llun	8	Ebrill	Tymor yn cychwyn – ysgol i bawb
Iau	25	Ebrill	Noson Farchnata Cynradd
Iau	2	Mai	Noson Farchnata Cynradd N Riení Bl.7 YGY
Llun	6	Mai	<i>Gŵyl Fai</i>
Iau	9	Mai	Arholiadau TGAU yn dechrau
Llun	13	Mai	Arholiadau UG yn dechrau
Iau	16	Mai	N Riení Bl.8 YGY
Mercher	22	Mai	Diwrnod olaf Bl13
Iau	23	Mai	Arholiadau A2 yn dechrau
27/05 – 31/05		<i>Hanner tymor / Eisteddfod yr Urdd</i>	
Gwener	7	Mehefin	Adr llawn Bl.9
Llun	10	Mehefin	Bl12 yn dychwelyd
Mawrth	11	Mehefin	Mabolgampau YGY
Mercher	12	Mehefin	Mabolgampau BD Dydd a noson agored Bl.6 YGY
Llun	17	Mehefin	Ffenest arholiadau mewnol bl 7-9 Profion Cenedlaethol Llythrennedd a Rhifedd
Iau	20	Mehefin	Mabolgampau Cynradd
Gwener	21	Mehefin	Mabolgampau Cynradd
Llun	24	Mehefin	Wythnos arholiadau mewnol blwyddyn 10
Iau	27	Mehefin	Gwibdeithiau CA3
Gwener	28	Mehefin	HMS 5
Llun	1	Gorffennaf	Wythnos Anelu'n Uchel/UCAS Bl.12
Gwener	5	Gorffennaf	Adroddiadau Cynradd
Llun	8	Gorffennaf	Cwricwlwm Cyfoethogi
Mawrth	9	Gorffennaf	Cwricwlwm Cyfoethogi Noson rieni CYN
Mercher	10	Gorffennaf	Cwricwlwm Cyfoethogi
Iau	11	Gorffennaf	Cwricwlwm Cyfoethogi
Gwener	12	Gorffennaf	Cwricwlwm Cyfoethogi Adr Llawn Bl.7, 8 a 10 YGYBD
Llun	15	Gorffennaf	HMS 6
Gwener	19	Gorffennaf	Diwedd tymor
Gorffennaf – Medi		<i>Gwyliau'r Haf</i>	
Iau	15	Awst	Canlyniadau UG + A2
Iau	22	Awst	Canlyniadau TGAU

Gobeithio y cewch chi doriad Pasg da ac edrychaf ymlaen at dymor arall o gynnydd a chyflawniad ym mhob maes dysgu yn ein tymor olaf.

Yn gywir

Laurel Davies



Adran Uwchradd, Ysgol Gymraeg Ystalyfera
Heol Ynysydarren, Ystalyfera, Castell-nedd Port Talbot, SA9 2DY.

(01639) 842129

YsgolYstalyferaUwchradd@npt.school

Dear parent / guardian,

I am delighted to write to you at the end of another very busy and successful term. Once again we have ensured that our pupils receive every possible opportunity to develop and thrive as effective and confident individuals.

Our School Improvement Plan

A full report of our progress against the priorities was provided to the Governing body at our termly meeting. A copy of the full school improvement plan is available to you on our website where you can see what our focal points are for the best possible provision for all learners.

The Language Charter

We have worked diligently this year to re-engage with the Language Charter to enrich pupils' experiences and solidify their confidence and willingness to use the Welsh language in their day-to-day lives. The accreditations for the award will take place following Easter but the Primary section is aiming for the gold award and the Secondary section is aiming for the bronze award.

I would like to congratulate the Primary department on their Welsh Cafe project – in collaboration with Swansea University. Pupils at the school, led by Miss Sali Lloyd run a café for community members and encourage and support their guests to strengthen their spoken Welsh.


Attendance this term

We have been working very hard to increase pupil attendance and there is quite a bit of success to celebrate!

- The Primary Department has seen the best progress in the county
- Bro Dur Year 7 on reaching 93.3%
- Ystalyfera Year 7 on reaching 94.2%

Curriculum for Wales

Our reports for year 7 to 8 have been adapted to fit the vision of the new curriculum. They indicate attendance, effort, current performance and a target for improvement. I hope you find the information useful to encourage and support your child to aim high. Please share your views on the contents of the report via this link <https://forms.office.com/e/E5aUHwV00X>



We had a great opportunity to host a two-week exhibition of Swansea canal history in the month of March. It was great to see the pupils benefit from the information and have the opportunity to enrich their knowledge of local history.

Pupils in the primary department had a lovely opportunity to experiment with the celtic harps. Thank you to Miss Katie Bayliss for coming in to provide the session.



Safeguarding

As you know, our focus on ensuring that our pupils develop as principled informed citizens is a priority and this term, we have had sessions with Fearless (Crimestoppers), the fire brigade, sessions on knife crime/county lines and road safety, healthy relationships by Spectacle and sexual consent / web safety with P C George.

New recycling rules

The law on recycling for businesses is changing. From April, schools like all Welsh businesses are expected to separate their recyclables in the same way that homes already do. We have prepared for this change and after Easter we will have recycling centres across the school where everyone will be expected to distribute recyclable items. The new rules are strict and we must ensure that we separate food waste from all other flows. We kindly ask you to assist us with this campaign by:

- Ensure lunch packs only contain recyclable items
- That your child understands their part in the campaign and supports the process
- Stress to your child that their sandwiches must only be eaten at the restaurant

Our pupils' achievements

It has been a very busy term for pupils across the age range and I would like to congratulate everyone who has supported the school in a very wide range of activities. Below we will share some of those successes – there are many more if you look at our twitter feed as a school.

There was a great school Eisteddfod on March 1st with the usual buzz of competing in traditional competitions such as singing, acting, instrumental solos but also more experimental competitions such as Hakka, sketch and rock band. Congratulations to everyone but particularly to Llys Llywelyn who were the winners in the Secondary section and Gwenllian who were the winners in the Primary section.



Urdd Eisteddfod Montgomeryshire 2024

Following very strong performances at the county Eisteddfod, a large number of pupils will be representing the School at the Urdd Montgomery Eisteddfod over Whitsun and we look forward to supporting them.

Primary Choir: **1st**

String Solo Yr7-9: **Mabli Lloyd 1st**

Piano Solo Yr7-9: **Gruffudd Watkins 1st**

Harp Solo Yr7-9: **Cari Griffiths 1st**

Brass Solo Yr10 & Under 19: **Sion Lloyd 1st**

Piano Solo Yr10 & Under 19: **Sadie Brophy 1st**

String Solo Yr10 & Under 19: **Mea Verallo 1st**

Instrumental Ensemble Yr 7-9: **Ysgol Ystalyfera 1st**

BI7-9 duet: **Gracie Marks and Anest Jones 1st**

Cerdd Dant Trio: **Mea Verallo Carla Verall & Mali Loader 1st**

Senior Vocal Ensemble: **Mea Verallo, Rhydian Rees & Mali Loader 1st**

Junior Boys Choir: **1st**

Junior SA Choir: **1st**

Senior Girls' Choir: **1st**

Folk Choir: **1st**

SATB Choir: **1st**

Junior Ymgom: **1st**

Junior Vocal Party: **1st**

Senior Vocal Party : **1st**



Fundraising for the Margam Dur a Môr Eisteddfod 2025



It's incredibly exciting to think that we will be hosting the Eisteddfod during 2025! The festival will take place during Whitsun week at Margam Park. Of course, the job now is to 'raise money'! We have two activities in the coming months and you are warmly welcome to support us.

On April 12th, a Folk Night will be held at Theatre Chiswell and the school's choirs and folk dancers will perform – tickets are £15 including food and a bar!

On May 10th 'The Paint Along Lady' will host an evening again at the Theatre Chiswell with food and a bar for £35.



Summer Term

Looking ahead to the final term, I would like to draw your attention to the following issues:

Attendance

High attendance is key to your child's success. All children should aim for 100% attendance to take full advantage of every opportunity provided within the school. We would also like to ask for your support in ensuring punctuality at the school. Please remember all children are to be at school by 8.40am. Arriving later than that interrupts lessons and class settling time for everyone. Thank you so much for your support, as always.

Summer School Uniform

After the Easter holidays we will allow pupils to wear summer uniform. For the final term, pupils will be allowed to wear:

- Official school polo shirt
- Official school sports shorts
- Black shoes / trainers

We do not allow pupils to wear skorts or leggings, if your child does not want to wear shorts, normal trousers or skirts must be worn with socks or tights. We thank you in advance for your support and cooperation in this matter.

External exams:

You will receive the final timetable of GCSEs/A levels/Vocational exams immediately after Easter and we kindly ask you to ensure you have the dates clear in your diaries. If you have any concerns during the period, please contact our exams officer Mrs Cath Michael via main reception or email via michaelc19@hwbcymru.net.

Once again, I would like to take this opportunity to thank you for your continued support and look forward with energy and enthusiasm to another term of work of the highest quality.

Summer Term Calendar

Monday	8	April	Term starts – school for all
Thursday	25	April	Primary Marketing Night
Thursday	2	May	Primary Marketing Night Parents evening Yr.7
Monday	6	May	<i>May Festival</i>
Thursday	9	May	GCSE exams begin
Monday	13	May	AS exams begin
Thursday	16	May	Parents evening Yr.8
Wednesday	22	May	Last day for Yr13
Thursday	23	May	A2 exams begin
27/05 – 31/05		<i>Half term / Urdd Eisteddfod</i>	
Friday	7	June	Full reports Yr.9
Monday	10	June	Yr12 return to lessons
Tuesday	11	June	YGY Sports day
Wednesday	12	June	Yr.6 open Day and evening
Monday	17	June	Internal exam window yrs 7-9 National Literacy and Numeracy Tests
Thursday	20	June	Primary Sports Day
Friday	21	June	Primary Sports Day
Monday	24	June	Year 10 internal exam week
Thursday	27	June	KS3 / Year 10 Trips
Friday	28	June	HMS 5
Monday	1	July	Aiming High/UCAS Yr.12
Friday	5	July	Primary Reports
Monday	8	July	Enrichment Curriculum
Tuesday	9	July	Enrichment Curriculum Primary Parents' evening
Wednesday	10	July	Enrichment Curriculum
Thursday	11	July	Enrichment Curriculum
Friday	12	July	Enrichment Curriculum Full reports Yr.7, 8 & 10
Monday	15	July	HMS 6
Friday	19	July	End of term
July – September		<i>Summer Holidays</i>	
Thursday	15	August	AS + A2 results
Thursday	22	August	GCSE results

I hope you have a good Easter break and I look forward to another term of progress and achievement in all areas of learning when we return.

Yours sincerely

